*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2830 (Cy.251)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *24 Hydref 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *27 Hydref 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**2**) at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n gysylltiedig â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd.

Cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi'r Rheoliadau fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** O ran y Rheoliadau hyn—

(a) eu henw yw Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006;

(b) deuant i rym ar 27 Hydref 2006; ac

(c) maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dirymiadau

**2.** Dirymir yr offerynnau a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen.

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
24 Hydref 2006
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

Y Rheoliadau a Ddirymwyd

| *Enw* | *O.S. Rhif* |
|---|---|
| The Food (Peanuts from China) (Emergency Control) (Wales) (No.2) Regulations 2002 | 2002/2295 (Cy.224) |
| Rheoliadau Bwyd (Pysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2003 | 2003/2299 (Cy.229) |
| The Food (Figs, Hazelnuts and Pistachios from Turkey) (Emergency Control) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 | 2002/1726 (Cy.161) |
| The Food (Figs, Hazelnuts and Pistachios from Turkey) (Emergency Control) (Wales) (No.2) Regulations 2002. | 2002/2296 (Cy.225) |
| Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistasio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2003 | 2003/2292 (Cy.228) |
| Rheoliadau Bwyd (Cnau Brasil) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003 | 2003/2254 (Cy.224) |
| Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2003 | 2003/2288 (Cy.227) |
| Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005 | 2005/257 (Cy.23) |
| Rheoliadau Bwyd (Pysgnau o'r Aifft) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003 | 2003/2910 (Cy.276) |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer dirymu offerynnau penodedig a weithredai Benderfyniadau'r Comisiwn sy'n gosod amodau ar fewnforio cynhyrchion penodol a allai fod wedi'u halogi gan lefelau rhy uchel o afflatocsinau.

Cafodd arfarniad rheoliadol llawn ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn ac fe'i gosodwyd yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â chopi o'r nodyn trosi sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11 Southgate House, Caerdydd CF10 1EW.